

RHAGAIR I'R DDOGFEN CYNLLUN RHEOLI DRAENIO A DŴR GWASTRAFF

Croeso i Gynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwasttraff (DWMP) Dŵr Cymru. Dyma ein DWMP cyntaf ac mae'n cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn cynllunio ar gyfer y tymor hir er budd ein cwsmeriaid a'r amgylchedd ac yn gwrthweithio effeithiau cyfunol newid yn yr hinsawdd, twf ac ymgripiad trefol (colli tir athraidd o amgylch ein hadeiladau presennol), cynllun y byddwn yn ei ddiweddarau bob pum mlynedd.

Mae ein DWMP yn gynllun strategol hirdymor cydweithredol sy'n amlinellu sut y gwnaethom fynd ati i ymestyn, gwella a chynnal system ddraenio a dŵr gwasttraff gadarn a chydnerth. Mae'n rhan annatod o'n huchelgais cyffredinol fel cwmni, Dŵr Cymru 2050, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn dod yn wasanaeth dŵr sy'n wirioneddol o'r radd flaenaf yn y byd, yn gydnerth a chynaliadwy er budd cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y cynllun yn chwarae rhan hanfodol wrth dynnu sylw at ble rydym yn rhagweld risg o dwf a newid hinsawdd, effaith ymddygiad cwsmeriaid, yr angen i fodloni rheoliadau amgylcheddol tynnach newydd, a chynnal a chadw ein hasedau.

Wrth wraidd ein DWMP mae adfer capasiti yn ein rhwydweithiau, gweithfeydd trin a'r amgylchedd, a dros y 25 mlynedd nesaf ein cynllun o ddewis yw canolbwyntio ar y rhannau pwysicaf o hyn yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol –

- Bydd gwelliannau i orlifoedd storm cyfun yn cael eu gwneud lle mae angen i ni leihau effeithiau ein gollyngiadau, rydym eisiau atal niwed i ansawdd dŵr ein hafonydd a'n traethau.*
- Byddwn yn ceisio lleihau maetholion sy'n mynd i afonydd a dyfroedd arfordirol drwy dulliau dalgylch, trwyddedu arloesol a masnachu maetholion.*
- Lle bynnag y bo modd, byddwn yn defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur ac atebion carbon isel.*
- Byddwn yn gweithio gydag eraill i dynnu dŵr wyneb o'n rhwydwaith carthffosydd cyfun lle bynnag y bo modd ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill (h.y. Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, Wrecsam ac ati) Byddwn hefyd yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio eraill i atal y broblem rhag tyfu drwy atal dŵr wyneb newydd rhag cael ei gysylltu â'n carthffosydd.*
- Byddwn yn gweithredu dulliau sy'n addasu effeithiau newid hinsawdd yn enwedig y rhai sy'n lleihau'r achosion o lifogydd mewn carthffosydd, yn lleihau'r perygl o lifogydd ac yn gwella cadernid y gwasanaeth a ddarparwn.*
- Galluogi twf a datblygiadau newydd drwy gysylltiadau cynaliadwy â'n rhwydwaith.*

Mae'r rhain yn bwysig oherwydd bydd ein dull gweithredu yn cynnwys ymyriadau wedi'u targedu a fydd yn helpu i sicrhau'r budd mwyaf posibl ac yn lliniaru'r niwed amgylcheddol y gallem fod yn ei achosi. Nid oes atebion syml, cyflym megis dileu ein dibyniaeth ar orlifoedd storm cyfun nad yw'n ymarferol (byddai'n golygu cloddio pob stryd gan achosi aflonyddwch enfawr) gan nad yw hynny'n fforddiadwy (am gost amcangyfrifedig o £19 biliwn). Y dull yr ydym yn ei ffafrio yw mabwysiadu atebion cynaliadwy fel GlawLif a dulliau carbon isel eraill sy'n seiliedig ar natur. Mae i'r rhain y fantais ychwanegol y byddant yn gwneud ein rhwydweithiau a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn fwy cydnerth i effeithiau newid hinsawdd heb gynyddu ein hól troed carbon yn sylweddol.

*Rydym hefyd yn dymuno lleihau'n **gynaliadwy** faint o faetholion a llygryddion sy'n mynd i mewn i'n hafonydd a'n dyfroedd arfordirol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ardaloedd, gan gynnwys ein hardaloedd cadwraeth arbennig sy'n sensitif i'r amgylchedd, rydym yn gwybod na allwn wneud y gwelliannau sydd eu hangen i fodloni safonau ansawdd dŵr ar ein pen ein hunain a lle rydym yn gwella ansawdd dŵr, mae'n aml yn gost ariannol a charbon uchel iawn. Rydym yn dymuno datblygu dulliau 'dalgylch', hynny yw sefydlu'r gwelliannau sydd eu hangen ledled yr ardal sy'n draenio i afon neu ardal arfordirol mewn partneriaeth ag eraill a phan fo'n fuddiol gwneud hynny, defnyddio masnachu*

maetholion i'w helpu i fodloni'r ansawdd dŵr uchaf. Mae'r dull hwn yn golygu y gallwn weithio i fodloni safonau ansawdd dŵr ond hefyd i wneud hynny drwy ddull carbon isel sy'n seiliedig ar natur a all helpu i gefnogi bioamrywiaeth. Er mwyn gwneud hyn bydd angen i ni weithio'n agos gyda'n llywodraeth a'n rheoleiddwyr i ddatblygu'r offer i alluogi hyn.

Yn olaf, mae'r system garthffosiaeth a gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn hanfodol i alluogi datblygu a thwf cynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys y datblygiadau fforddiadwy hynny sydd mor bwysig i gymunedau ar draws yr ardal yr ydym yn ei gwasanaethu. Heb y gallu i dderbyn datblygiadau newydd, bydd ceisiadau cynllunio yn parhau i gael eu dal yn ôl a bydd cartrefi a busnesau newydd hanfodol yn cael eu gohirio. Mae Cymru wedi cychwyn Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr sy'n golygu na ddylai datblygiadau newydd ddraenio dŵr wyneb i'r system garthffosiaeth ac eithrio pan fetho popeth arall, ond hyd nes y byddwn yn atal dŵr wyneb newydd rhag cael ei ddraenio i garthffosydd ni fydd gennym system ddraenio wirioneddol gynaliadwy. Ein dewis o gynllun yw gweithio gydag Awdurdodau Lleol drwy fyrddau prosiect a chynllunio a grwpiau cydweithredol eraill fel y gallwn wireddu gyda'n gilydd y cyfleoedd i wahanu llifoedd a darparu capasiti ar gyfer y cysylltiadau cynaliadwy sydd eu hangen ar ddatblygiadau newydd, ac atal y problemau sydd gennym heddiw rhag gwaethygu ar yr un pryd.

Dyma rai o'r heriau allweddol yr ydym yn eu hwynebu a'r cyfleoedd sydd ar gael i ni. Rydym eisiau i bawb sy'n ymwneud â gwastraff dŵr a draenio gael cyfle i lunio'r DWMP drwy'r ymgynghoriad hwn. Gyda thywydd eithafol diweddar fel llifogydd, gwyddom fod angen i ni weithredu nawr. Gan weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth, gallwn sicrhau bod y canlyniad yn fwy na chynllun hirdymor cwmni dŵr yn unig ond yn hytrach yn gynllun sy'n cynnig y farn orau ar y risgiau a'r materion yr ydym yn eu hwynebu fel cymdeithas, ynghyd â chytundebau ar atebion a chymau lliniaru a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol ar draws yr holl gymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Dyddiad cyfarfod bwrdd Dwr Cymru 7 Gorffennaf